**Rhif: WG46050**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllawiau Trwyddedau Petrolewm ar y Tir

Ymgynghoriad ar ganllawiau technegol i ddeiliaid trwyddedau archwilio a datblygu petrolewm ar y tir

Mai 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 ISBN Digidol 978-1-83715-789-1

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ar ganllawiau technegol drafft ar gyfer deiliaid trwyddedau petrolewm, ac yn cofnodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o ofyn amdanynt.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Is-adran Ynni
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: YmatebionYnni-EnergyResponses@llyw.cymru.

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i’r ddogfen ymgynghori: Canllawiau trwyddedu petrolewm ar y tir | LLYWODRAETH. CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys .... 3
Cyflwyniad .... 4
Cynnal yr ymgynghoriad .... 4
Asesu cwestiynau ymgynghori .... 4
Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad .... 6

## Cyflwyniad

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am roi trwyddedau ar gyfer fforio a datblygu adnoddau petrolewm ar dir Cymru. Polisi Llywodraeth Cymru yw peidio â chyhoeddi unrhyw drwyddedau newydd. Fodd bynnag, mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i weinyddu'r trwyddedau petrolewm a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU cyn 1 Hydref 2018 yn unol â'r cymalau model yn y drwydded a'r ddeddfwriaeth a pholisi perthnasol, ac ag egwyddorion cyffredinol cyfraith gyhoeddus. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn am ganllawiau anstatudol drafft a gafodd eu paratoi i helpu deiliaid trwyddedau i reoli'u trwyddedau.

## Cynnal yr ymgynghoriad

Maint yr ymateb

Gan fod y canllawiau yn dechnegol eu natur ac am mai dim ond ychydig o bartïon sydd â diddordeb, nid oedd disgwyl y byddem yn derbyn nifer fawr o ymatebion. Gwahoddwyd pawb oedd â thrwydded petrolewm ar y tir yng Nghymru (pum sefydliad) i ymateb, gan fod y canllawiau wedi'u bwriadu at eu defnydd nhw yn bennaf.

Daeth chwe ymateb i'r ymgynghoriad i law. Roedd dau ohonynt yn ymatebion llawn.

Mathau o ymatebwyr

O'r ddau ymatebwr a roddodd eu manylion, roedd un yn fudiad ymgyrchu amgylcheddol ac un yn gymdeithas ddinesig. Cyn belled ag y gellir dweud, ni chafwyd ymateb gan unrhyw ddeiliaid trwydded petrolewm.

Sut yr ydym yn mynd ati

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u crynhoi yn yr adrannau canlynol.

## Asesu cwestiynau ymgynghori

Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau drafft yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a fyddai'n helpu rhywun sy'n meddu ar drwydded petrolewm ar hyn o bryd i reoli ei rwymedigaethau o dan y drwydded honno?

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydynt | 2 |
| Niwtral | 0 |
| Dim sylw | 4 |

| | |
|---|---|
| Nac ydynt | 0 |

Cwestiwn 2: Pa wybodaeth arall allai helpu rhywun sy'n meddu ar drwydded petrolewm ar hyn o bryd i reoli ei drwydded?

Dywedodd un ymatebydd y dylai'r canllawiau nodi nad oes modd i drwydded symud o'r cam arfarnu i'r cam cynhyrchu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: er y bydd pob cais am ganiatâd yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn codi tanwydd ffosil.

Cwestiwn 3: Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r rheoliadau newydd yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Dywedodd un ymatebydd y gallai codi rhagor o olew a nwy fod yn niweidiol i'r Gymraeg oherwydd y di-Gymraeg fyddai'n symud i'r ardal.

Ymateb Llywodraeth Cymru: mae'r effaith bosibl ar y Gymraeg yn fater sy'n cael ei ystyried gan awdurdodau cynllunio yn eu cynlluniau datblygu. Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu ar gyfer trwyddedau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi. Ein polisi yw peidio â chyhoeddi trwyddedau newydd. (Sylwch fod y cyfeiriad at 'reoliadau newydd' yn y cwestiwn yn golygu'r canllawiau technegol drafft, nid rheoliadau.)

Cwestiwn 4: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dywedodd un ymatebydd y byddai bod yn hunangynhaliol o ran egni yn fuddiol i'r Gymraeg.

Dywedodd un ymatebydd fod cyfleoedd cyfartal felly nid oes angen newid.

Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mynegodd un ymatebydd ei gefnogaeth i'r polisi petrolewm ond mynegodd hefyd bryder o ran y posibilrwydd o adfer glo o domenni glo.

Ymateb Llywodraeth Cymru: mae'r pwynt hwn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Cwestiwn 6: Ydych chi’n byw yng Nghymru?

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 2 |
| Dim sylw | 4 |
| Nac ydw | 0 |

Cwestiwn 7: Oes gennych chi ddiddordeb busnes yng Nghymru?

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Oes | 0 |
| Dim sylw | 4 |
| Nac oes | 2 |

Cwestiwn 8: Rhowch ran gyntaf cod post eich cartref ee CF10

| Cod post | Nifer |
|---|---|
| CH31 | 1 |
| LL59 | 1 |
| Dim ymateb | 4 |

## Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad

Ar sail yr ymateb a ddaeth i law, heb unrhyw anghytundeb sylweddol â'r canllawiau drafft, bydd y canllawiau yn cael eu cyhoeddi fel rhai terfynol.